# Cod Moeseg 2025

**Cyflwyniad**

Mae'r Cod Moeseg yn fframwaith ar gyfer rhoi ystyriaethau moesegol ar waith yn ein gwaith bob-dydd mewn amgueddfeydd ac mae'n adlewyrchu contract ymddiriedaeth rhwng amgueddfeydd a'r cyhoedd. Mae hwn yn god ar eich cyfer chi, eich cydweithwyr a'ch cymunedau.

Nid yw amgueddfeydd y Deyrnas Unedig yn unffurf. Mae strwythurau cyllido a llywodraethu yn amrywio o sefydliad i sefydliad, fel y gwna lefelau staffio a chymorth gwirfoddolwyr. Mae gweithlu'r amgueddfeydd yn amrywiol ac yn cynnwys gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr, staff a gweithwyr llawrydd – o uwch-arweinwyr i bobl sydd ar ddechrau eu gyrfa. Datblygwyd y Cod Moeseg newydd gan gydnabod yr amrywiaeth hon, ac wrth ei ddiweddaru, ymgynghorwyd â sefydliadau ac unigolion sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth.

Mae'r cod yn nodi egwyddorion moesegol ac ymarfer moesegol allweddol a chaiff ei gadarnhau gan astudiaethau achos a chanllawiau ychwanegol.

Mae myfyrio moesegol yn rhan hanfodol o waith bob-dydd amgueddfeydd. Dylid defnyddio'r cod hwn i'ch helpu i wneud penderfyniadau moesegol ym mhob agwedd ar waith yr amgueddfa ac i ganfod eich ffordd pan fydd sefyllfaoedd moesegol cymhleth yn codi.

Canllaw i arferion gorau yw'r cod hwn ac nid yw'n cynnwys yr holl atebion. Bydd y penderfyniadau moesegol a wnewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'ch cyd-destun neilltuol chi a gallant edrych yn wahanol mewn gwahanol amgueddfeydd. Felly, mae'n bwysig dilyn prosesau agored a rhesymegol wrth ystyried materion moesegol.

**Agwedd ddyheadol**

Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r Cod Moeseg yn cyflwyno agwedd ddyheadol at foeseg er mwyn annog a chefnogi arferion gorau moesegol myfyriol a chyfrifol mewn amgueddfeydd.

Mae'n rhaid cyrraedd safonau moeseg gorfodol, fel rhwymedigaethau cyfreithiol a Safonau Achredu. Mae'r rhain yn bendant, yn glir a dylid eu gweithredu'n fanwl gywir

yn awr ac i'r dyfodol. Mae'r cod yn gofyn i bobl sy'n gweithio mewn amgueddfeydd a gyda nhw i gyrraedd y safonau gofynnol hyn a rhagori arnynt gan anelu at arferion gorau moesegol.

Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) yn sylweddoli y bydd yn cymryd amser, buddsoddiad parhaus, a gwaith adeiladu perthnasoedd i gyflawni rhai elfennau o'r arferion gorau dyheadol ac y bydd pawb ar wahanol gamau yn y daith i gyrraedd yr arferion gorau moesegol. Bydd yr MA yn annog ac yn cefnogi amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddynt ag astudiaethau achos, hyfforddiant, cyngor ac arweiniad i sicrhau'r arferion gorau.

Dylai pawb sy'n gweithio gydag amgueddfeydd ymdrechu hyd eithaf eu gallu i weithredu arferion gorau moesegol. Waeth beth fo'u rôl neu lefel eu swydd, gall unrhyw un sy'n gweithio mewn amgueddfeydd a gyda nhw ymgorffori arferion gorau moesegol yn eu gwaith. Mae'r MA yn cydnabod y bydd cyfyngiadau personol a sefydliadol ar y gallu i gyflawni rhai elfennau ar arferion gorau.

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddynt gymryd agwedd gymesur, gan gydbwyso gweithio tuag at arferion gorau â'r hyn sy'n gyraeddadwy ac yn rhesymol gyda'r amser a'r adnoddau sydd ar gael. Dylai amgueddfeydd gymryd cyfrifoldeb am lesiant y bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu i weithio mewn ffordd foesegol.

Gall amgueddfeydd ddewis creu eu pwyllgorau moeseg mewnol eu hunain i hyrwyddo meddwl beirniadol a sgyrsiau effeithiol ar faterion moesegol cyfoes ac i gefnogi gwneud penderfyniadau moesegol. Fel corff i aelodau, mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn disgwyl i bob aelod weithredu a hyrwyddo'r cod.

**Gwerthu casgliadau mewn modd anfoesegol**

Mae'r MA yn bendant bod gwerthu eitemau o gasgliadau amgueddfeydd mewn modd anfoesegol a thargedu casgliadau fel ffynhonnell incwm yn annerbyniol. Gallai gwerthiannau anfoesegol o gasgliadau arwain at gael eich gwahardd rhag bod yn aelod o'r MA, yn cynnwys eich gwneud yn anghymhwys i ymgeisio am gyllid gan yr MA tra byddwch wedi'ch gwahardd.

Darllenwch y [Joint statement on Unethical Sales from Collections] i gael gwybod rhagor.

Dylai amgueddfeydd sy'n ystyried gwaredu eitemau trwy eu gwerthu er mwyn cynhyrchu incwm geisio cyngor cyfrinachol buan gan yr MA fel y gallwn drafod y

cymhellion dros werthu a'ch helpu i ddeall a ydi'ch bwriad yn cydymffurfio â gofynion y Cod Moeseg.

Mae'r MA yn rhoi ystyriaeth ofalus i gynlluniau i waredu eitemau am resymau ariannol ac mae'n debygol o gymryd sawl mis i roi barn bendant, yn enwedig gan fod angen cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg i drafod y bwriad gan amlaf.

Weithiau, gall gwerthu eitemau o gasgliadau fod yn ffordd foesol-dderbyniol o'u gwaredu, ar yr amod y dilynir y broses lawn a nodir ym mhecyn cymorth Oddi ar y Silff.

### Strwythur

Mae'r Cod Moeseg yn cynnwys egwyddorion arweiniol, sydd hefyd yn cael eu mynegi'n ymarferol.

- **Egwyddorion** – gwerthoedd arweiniol sylfaenol arferion moesegol mewn amgueddfeydd.
- **Ymarfer** – sut i weithredu'r egwyddorion a sut y mae arferion gorau moesegol yn edrych yn y sector amgueddfeydd.

### Astudiaethau achos

Mae astudiaethau achos a senarios Everyday Ethics yn cynnig enghreifftiau o sefyllfaoedd moesegol y daeth amgueddfeydd ar eu traws ac maent yn esbonio sut y gall yr egwyddorion a'r ymarfer a nodir yn y Cod Moeseg helpu i lywio penderfyniadau a chefnogi arferion gorau moesegol.

### Canllawiau ychwanegol

Mae'r MA wedi cynhyrchu canllawiau moesegol ar feysydd ymarfer penodol yn y Cod Moeseg yn cynnwys:

- Canllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Ddad-drefedigaethu
- Oddi ar y Silff: Pecyn Cymorth ar gyfer Trosglwyddo, Ailddefnyddio a Gwaredu Moesegol
- Ymchwil ac Argymhellion ym maes Cyflogau

Mae'r MA wedi ymrwymo i gynhyrchu rhagor o ganllawiau moesegol er budd y sector.

## Canllawiau allanol

Mae'r MA yn cydnabod bod sefydliadau eraill wedi cynhyrchu canllawiau moesegol a all helpu'r sector i wneud penderfyniadau moesegol. Rydym wedi llunio rhestr o ganllawiau allanol a all fod o gymorth i chi.

## Gweithredu'r cod

Rydym yn disgwyl i bob aelod o'r MA ddilyn y canllawiau yn y Cod Moeseg.

Mae rhaglenni datblygiad proffesiynol Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn cefnogi pobl i roi'r cod ar waith a gall Fframwaith Cymhwysedd (Competency Framework) yr MA gefnogi datblygiad unigolion mewn ymarfer moesegol.

O dan bob un o'r tair egwyddor, rydym wedi amlinellu datganiadau moesegol sy'n cefnogi ymarfer gorau. Rhoddwyd y datganiadau hyn mewn grwpiau o dan y cymhwysedd perthnasol o Fframwaith Cymhwysedd yr MA.

Er mwyn bod yn Aelod Cyswllt o Gymdeithas yr Amgueddfeydd (AMA) rhaid i aelodau ddangos ymwybyddiaeth o'r cod a sut y'i defnyddir. Er mwyn bod yn Gymrawd o Gymdeithas yr Amgueddfeydd (FMA) rhaid i aelodau ddangos eu bod yn hyrwyddo defnydd ehangach o'r cod yn y sector.

Mae'r Pwyllgor Moeseg yn cynnig cefnogaeth a chyngor cyfrinachol i'r sector amgueddfeydd. Os oes gennych ymholiad am foeseg, cysylltwch â'n swyddog arweiniol ym maes polisi a moeseg, India Divers: india@museumsassociation.org

## Egwyddorion moesegol

Gwerthoedd arweiniol sylfaenol ymarfer moesegol mewn amgueddfeydd.

1. **Teg a chynhwysol**

Dylai amgueddfeydd fod yn lleoedd cynhwysol, lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u trin yn deg ac â pharch.

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw:

- ddarparu mynediad cyhoeddus at gasgliadau ac ymgysylltiad ystyrlon â nhw
- meithrin perthnasoedd teg â chymunedau
- bod yn barchus a bod yn ymwybodol o wahanol ddiwylliannau wrth weithio gyda chymunedau, casgliadau a'r gweithlu
- rhoi gwerth ar eu gweithlu.

2. **Tryloyw ac atebol**

Dylai amgueddfeydd fod yn agored ac yn dryloyw yn eu holl weithgareddau, a dylai'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw neu drostyn nhw weithredu'n onest, ag uniondeb (integrity), a chymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd.

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw:

- sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn agored ac yn dod â budd i'r cyhoedd
- meithrin perthnasoedd agored ac adeiladol â chymunedau, y gweithlu, sefydliadau partner, cyllidwyr a rhanddeiliaid
- rheoli casgliadau a gofalu amdanynt mewn ffordd gyfrifol
- cefnogi rhyddid i lefaru, rhyddid mynegiant a rhyddid i drafod (freedom of debate).

3. **Cyfrifol a chynaliadwy**

Dylai amgueddfeydd weithredu mewn ffordd gyfrifol i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor.

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw:

- sicrhau uniondeb (integrity) ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn holl weithgareddau'r amgueddfa
- ystyried effeithiau ar yr hinsawdd a chyfrifoldeb cymdeithasol wrth wneud pob penderfyniad

- trin casgliadau'r amgueddfa fel asedau diwylliannol, gwyddonol neu hanesyddol, nid asedau ariannol
- rheoli casgliadau ar gyfer y tymor hir, er budd pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

## Ymarfer moesegol

### 1. Teg a chynhwysol

Dylai amgueddfeydd fod yn lleoedd cynhwysol, lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u trin yn deg ac â pharch.

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw:

- ddarparu mynediad cyhoeddus at gasgliadau ac ymgysylltiad ystyrlon â nhw
- meithrin perthnasoedd teg â chymunedau
- bod yn barchus a bod yn ymwybodol o wahanol ddiwylliannau wrth weithio gyda chymunedau, casgliadau a'r gweithlu
- rhoi gwerth ar eu gweithlu.

**Sut i roi'r egwyddor ar waith**

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw:

**Grymuso cynulleidfaoedd a chymunedau**

1.1 Meithrin perthnasoedd teg â chymunedau a chynulleidfaoedd wedi'u seilio ar barch a'u lles ei gilydd. Ceisio cael pobl a rhanddeiliaid o gefndiroedd amrywiol er mwyn dod ag amrywiaeth eang o safbwyntiau a dealltwriaeth i bob agwedd ar waith yr amgueddfa.

1.2 Canfod ffyrdd o gefnogi pawb i gymryd rhan mewn amgueddfeydd, gan gydnabod bod rhai unigolion a chymunedau'n profi rhwystrau. Gweithio gyda chymunedau i oresgyn heriau tlodi ac allgáu ac i sicrhau cydraddoldeb yn y canlyniadau.

1.3 Hyrwyddo amrywiaeth a thegwch trwy feithrin dealltwriaeth a pherthnasoedd da rhwng pobl o wahanol hunaniaethau a chredoau. Cofleidio dull sy'n wrth-wahaniaethol, yn wrth-hiliol ac yn wrth-ableddol (anti-ableist).

1.4 Gwerthfawrogi gwahanol fathau o wybodaeth a dulliau cynhyrchu gwybodaeth a chydnabod y gall fod sawl persbectif i'r un naratif. Bod yn fan lle gall pobl ddod at ei gilydd i ddysgu a chyfnewid syniadau.

**Rheoli pobl, arian a sefydliadau**

1.5 Gwerthfawrogi'r gweithlu, yn cynnwys staff, gwirfoddolwyr a gweithwyr llawrydd, trwy sicrhau cyflog, buddion ac amodau teg. Meithrin diwylliant cadarnhaol yn y gweithle er mwyn hyrwyddo llesiant. Ystyried defnyddio canllawiau Gweithlu'r MA i'ch helpu yn y gwaith.

1.6 Ymrwymo i amrywiaeth yn y gweithlu er mwyn gwella gwaith yr amgueddfa a sicrhau bod y cymunedau y mae'r amgueddfa'n eu gwasanaethu'n cael eu cynrychioli'n well.

**Grymuso casgliadau**

1.7 Sicrhau bod casgliadau'n cael eu dogfennu, eu storio, eu trin a'u harddangos mewn ffordd barchus, gan ystyried sensitifrwydd diwylliannol y cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw.

1.8 Dangos goddefgarwch at wahanol safbwyntiau crefyddol, ysbrydol, a diwylliannol wrth weithio gyda chasgliadau, yn enwedig weddillion dynol ac eitemau cysegredig.

1.9 Ymdrechu i wneud casgliadau'n gynrychioliadol o'r cymunedau y mae'r amgueddfa'n eu gwasanaethu ac yn berthnasol iddynt, gan ystyried grwpiau cymunedol sydd wedi'u hallgáu yn y gorffennol.

1.10 Wrth ymchwilio i gasgliadau a'u dogfennu, cydnabod amrywiaeth o safbwyntiau ac arbenigedd, yn enwedig rai sydd wedi dioddef allgáu systemig.

## 2. Tryloyw ac atebol

Dylai amgueddfeydd fod yn agored ac yn dryloyw yn eu holl weithgareddau, a dylai'r bobl sy'n gweithio ynddynt neu drostynt weithredu'n onest, ag uniondeb, a chymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd.

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw:

- sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn agored ac yn dod â budd i'r cyhoedd
- meithrin perthnasoedd agored ac adeiladol â chymunedau, y gweithlu, sefydliadau partner, cyllidwyr a rhanddeiliaid
- rheoli casgliadau a gofalu amdanynt mewn ffordd gyfrifol

- cefnogi rhyddid i lefaru, rhyddid mynegiant a rhyddid i drafod (freedom of debate).

**Sut i roi'r egwyddor ar waith**

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw:

**Grymuso cynulleidfaoedd a chymunedau**

2.1 Bod yn atebol i gynulleidfaoedd, cymunedau a rhanddeiliaid, a bod yn agored i broses graffu.

2.2 Cefnogi rhyddid i lefaru, rhyddid mynegiant a rhyddid i drafod, yn unol ag Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Parchu hawl pawb i fynegi gwahanol safbwyntiau oddi mewn i'r amgueddfa oni bai ei bod yn anghyfreithlon gwneud hynny neu'n anghyson â diben yr amgueddfa fel sefydliad gwrth-wahaniaethol a gofod cyhoeddus cynhwysol.

2.3 Ystyried creu polisi ar ryddid mynegiant a rheoli materion dadleuol a allai godi, a hynny yn unol â gwerthoedd eich sefydliad er mwyn atal niwed posibl i staff ac aelodau'r gynulleidfa.

2.4 Cefnogi cynulleidfaoedd i gofleidio a deall cymhlethdod hysbysrwydd a gwybodaeth trwy gyflwyno gwahanol safbwyntiau yr ymchwiliwyd iddynt ac y cafwyd tystiolaeth drostynt.

**Rheoli pobl, arian a sefydliadau**

2.5 Sicrhau bod y broses benderfynu'n seiliedig ar yr ymarfer proffesiynol gorau, ei bod yn agored ac yn dryloyw, ac yn dod â budd i'r cyhoedd

2.6 Meithrin perthnasoedd agored ac adeiladol â sefydliadau partner, cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill. Rhannu gwybodaeth am bartneriaethau â staff, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol er mwyn meithrin ymddiriedaeth ac annog cydweithio.

2.7 Sicrhau uniondeb y sefydliad trwy wrthsefyll ymdrechion gan gorfforaethau, cyllidwyr a llywodraethau i ddylanwadu'n ormodol ar eich gwaith a'ch penderfyniadau strategol er mwyn hybu eu buddiannau preifat neu wleidyddol eu hunain.

2.8 Ymgorffori egwyddorion dad-drefedigaethu yn eich gwaith, gan gymryd amser i ddeall sut mae trefedigaethu'n berthnasol i'ch sefydliad. Defnyddio Canllawiau'r MA ar Ddad-drefedigaethu yn gymorth i chi ar y daith.

2.9 Cydnabod y strwythurau grym anghyfartal sy'n gysylltiedig â gwaddol trefedigaethu ac ymerodraethau a mynd i'r afael â nhw.

2.10 Osgoi pob gweithgaredd preifat y gellid ei ddehongli fel masnachu neu ddelio mewn eiddo diwylliannol.

2.11 Wrth recriwtio ar gyfer rolau â thâl, cynnwys gwybodaeth am y tâl a'r buddion yn nisgrifiadau'r rolau.

2.12 Bod yn gyfrifol wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) a bod yn dryloyw â'r cyhoedd ynglŷn â'r defnydd a wneir ohono yng ngwaith yr amgueddfa.

2.13 Cynnal asesiadau trylwyr a rhagweithiol o risgiau a manteision technolegau datblygol gyda chyfraniadau gan y sefydliad cyfan.

2.14 Sicrhau stiwardiaeth briodol o ddata a rheoli data mewn ffordd dryloyw, diogel ac atebol.

2.15 Hwyluso mynediad cyfrifol at ddeunyddiau digidol gan ddiogelu hawliau, urddas a galluogedd (agency) unigolion a chymunedau.

**Grymuso casgliadau**

2.16 Rheoli casgliadau, gofalu amdanynt a'u datblygu gan ddefnyddio gweithdrefnau a pholisïau a adolygir yn rheolaidd ac sydd wedi'u cynllunio i sicrhau atebolrwydd.

2.17 Sicrhau bod gwybodaeth am gasgliadau'r amgueddfa a pholisïau datblygu casgliadau ar gael i'r cyhoedd. Bod yn agored am brosesau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â rheoli casgliadau.

2.18 Cydnabod yn gyhoeddus bod cyfraniadau gan lawer o unigolion a grwpiau wedi siapio'r amgueddfa, ei chasgliadau a'i gweithgareddau.

2.19 Gwirio perchnogaeth unrhyw eitem cyn ei chaffael neu ei chymryd ar fenthyg a chadarnhau bod gan y daliwr cyfredol hawl gyfreithiol i drosglwyddo'r teitl neu i'w rhoi ar fenthyg. Defnyddio'r un meini prawf llym ar gyfer rhoddion a chymynroddion. Trin pob achos o drosglwyddiad teitl a chyfrifoldeb yr un fath.

2.20 Trafod disgwyliadau ac egluro yn ysgrifenedig yr union delerau y mae pob plaid yn derbyn trosglwyddo teitl arnynt. Bod yn ystyriol o roddwyr ac yn sensitif iddynt wrth dderbyn neu wrthod rhoddion a chymynroddion.

2.21 Cydbwyso darparu mynediad cyhoeddus at gasgliadau â darparu dyletswydd gofal yn unol â dymuniadau cymunedau. Ni ddylai egwyddor darparu mynediad at y casgliadau orbwyso'r ddyletswydd i atal niwed i bobl.

2.22 Bod yn glir ac yn agored ynghylch y rhesymau pam mae'r amgueddfa'n cadw gweddillion dynol.

2.23 Bod ag agwedd agored, ragweithiol a chadarnhaol at ddychwelyd eitemau i'w tarddiad (repatriation) a'u hadfer (restitution). Ymdrin yn sensitif ac yn brydlon â cheisiadau, boed o'r Deyrnas Unedig neu o dramor.

## 3. Cyfrifol a chynaliadwy

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw:

- sicrhau uniondeb (integrity) ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn holl weithgareddau'r amgueddfa
- ystyried effeithiau ar yr hinsawdd a chyfrifoldeb cymdeithasol wrth wneud pob penderfyniad
- trin casgliadau'r amgueddfa fel asedau diwylliannol, gwyddonol neu hanesyddol, nid asedau ariannol
- rheoli casgliadau ar gyfer y tymor hir, er budd pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

**Sut i roi'r egwyddor ar waith**

Dylai amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw a gyda nhw:

**Grymuso cynulleidfaoedd a chymunedau**

3.1 Deall bod yr argyfwng hinsawdd yn fater moesegol, cymdeithasol ac amgylcheddol ac felly bod gan amgueddfeydd ddyletswydd foesegol i godi ymwybyddiaeth ac i ysgogi cymunedau i greu newid er lles.

**Rheoli pobl, arian a sefydliadau**

3.2 Ystyried effeithiau ar yr hinsawdd ac ecoleg a chyfrifoldeb cymdeithasol ym mhob penderfyniad a wneir ac yn holl weithgareddau'r sefydliad. Cymryd camau i leihau'r effeithiau hyn yng ngwaith yr amgueddfa, yn cynnwys diogelu bioamrywiaeth a lleihau allyriadau carbon.

3.3 Sicrhau uniondeb (integrity) ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn holl weithgareddau'r amgueddfa trwy arfer diwydrwydd dyladwy ym meysydd adeiladu partneriaethau, nawdd a chodi arian. Ymdrechu i sicrhau cyllid o ffynonellau moesegol sy'n cyd-fynd â gwerthoedd y sefydliad ac sy'n gweithredu er lles pennaf cymunedau.

3.4 Symud i ffwrdd o dderbyn nawdd gan sefydliadau sy'n ymwneud â niwed amgylcheddol (yn cynnwys tanwyddau ffosil), tramgwyddo hawliau dynol, a nawdd arall nad yw'n cydymffurfio â gwerthoedd yr amgueddfa.

**Grymuso casgliadau**

3.5 Defnyddio casgliadau i ysbrydoli pobl ac i hwyluso newid cadarnhaol er budd yr amgylchedd a chymdeithas.

3.6 Gwarchod casgliadau a sicrhau'r mynediad gorau atynt er budd cynulleidfaoedd heddiw ac i'r dyfodol.

3.7 Ymroi i reoli casgliadau a'u dogfennau ar gyfer y tymor hir, gan gynnwys rhestr eiddo gyfredol. Cydnabod bod trosglwyddo, gwaredu, ailddefnyddio a dad-dderbynodi moesegol yn rhannau beunyddiol ac angenrheidiol o waith rheoli casgliadau mewn ffordd gynaliadwy a bod angen gwneud y gwaith ar frys. Defnyddio Oddi ar y Silff: Pecyn Cymorth ar gyfer Trosglwyddo, Ailddefnyddio a Gwaredu Moesegol i lywio'r gwaith.

3.8 Gwrthod morgeisio casgliadau na'u cynnig fel gwarant ar gyfer benthyciad. Sicrhau nad yw hyfywedd ariannol yr amgueddfa yn dibynnu ar unrhyw brisiad ariannol a roddir ar eitemau yn ei chasgliadau. Gwrthod rhoi gwerth masnachol ar y casgliadau oni bai bod rheswm cryf iawn dros wneud hynny, a gwneud hynny at ddibenion rheoli casgliadau yn unig.

3.9 Cydnabod na ddylid ystyried casgliadau fel asedau ariannol ac y gallai eu gwaredu am resymau ariannol niweidio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn amgueddfeydd.

3.10 Gwrthod prynu, cymryd benthyg neu dderbyn yn rhodd unrhyw eitem os oes unrhyw amheuaeth ei bod wedi'i chymryd ar gam yn ystod cyfnod o wrthdaro, wedi'i dwyn, wedi'i hallforio'n anghyfreithlon neu ei masnachu'n anghyfreithlon, oni bai bod hynny'n unol â chonfensiynau rhyngwladol perthnasol, neu fod yr amgueddfa'n cydweithredu ag ymdrechion i ganfod pwy yw perchennog/perchnogion cyfreithlon yr eitem.

3.11 Osgoi ymddygiad y gellid ei ddehongli fel honni perchnogaeth bersonol ar gasgliadau.

3.12 Peidio â chaffael eitem os na all yr amgueddfa ddarparu gofal hirdymor, cynaliadwy i'r eitem a chaniatâu i'r cyhoedd gael mynediad ati.

## Geirfa

### Mynediad

Y cyfle i fynd i mewn i rywle neu ymgysylltu â rhywbeth heb rwystrau. Mae llawer o fathau o rwystrau, a gallant fod yn rhai materol (adeiladwaith ac ati), synhwyraidd, deallusol, agweddol, cymdeithasol, diwylliannol neu ariannol.

### Atebolrwydd

Sefydliadau'n derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u hymddygiad. Mae bod yn atebol i gymunedau, cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid yn golygu ystyried eu hanghenion, eu pryderon a'u galluoedd, ac esbonio gweithredoedd a phenderfyniadau wrthynt. Mae gwybodaeth am atebolrwydd am gasgliadau ar wefan yr Ymddiriedolaeth Casgliadau.

### Gwrth-ableddol

Mae'n cydnabod braint pobl abl ac yn mynd ati i herio a datgymalu hynny trwy weithredu mewn gwahanol ffyrdd.

### Gwrth-wahaniaethol

Gwrthwynebu trin pobl yn anghyfiawn a rhagfarnu yn eu herbyn ar sail oedran, ailbennu rhywedd, bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth, anabledd, hil (yn cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol), crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth/mynegiant rhywedd, neu statws economaidd-gymdeithasol. Mynd ati i ganfod a datgymalu polisïau ac arferion sy'n caniatáu gwahaniaethu.

### Gwrth-hiliol

Mynd ati i ganfod a datgymalu polisïau, arferion, ymddygiadau, confensiynau, normau na chaiff eu herio, a chredoau sy'n peri bod hiliaeth sefydliadol a systemig yn erbyn pobl pobl hil-ddiffiniedig o liw yn parhau.

### Cynulleidfa

Unigolion a grwpiau sy’n defnyddio adnoddau neu gyfleusterau’r amgueddfa.

**Casgliad**

Corff o ddeunydd diwylliannol a/neu dreftadol. Gall casgliadau fod yn faterol, yn anniriaethol neu’n ddigidol.

**Polisi datblygu casgliadau**

Dogfen bolisi sy’n siapio casgliadau amgueddfa trwy ganllawiau caffael a gwaredu, ac a arweinir gan ddatganiad o bwrpas yr amgueddfa.

**Cymuned**

Grŵp o unigolion sy’n rhannu nodwedd, set o gredoau, neu agweddau neilltuol. Nid yw cymunedau o reidrwydd yn seiliedig ar eu lleoliad daearyddol.

**Delio**

Gwneud pryniant hapfasnachol gyda’r bwriad o ail-werthu i wneud elw.

**Dad-drefedigaethu mewn amgueddfeydd**

Proses hirdymor sy'n rhoi sylw i'r rhan annatod y mae ymerodraethau'n ei chwarae mewn amgueddfeydd – o'u creu hyd heddiw. Er mwyn dad-drefedigaethu, mae angen ailasesu ein sefydliadau a'u hanes a mynd i'r afael â strwythurau ac agweddau trefedigaethol ym mhob rhan o waith amgueddfeydd.

Mae Canllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Ddad-drefedigaethu yn rhoi rhagor o wybodaeth am ddad-drefedigaethu mewn amgueddfeydd a'r hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol.

**Gwaredu**

Penderfyniad ffurfiol corff llywodraethu i dynnu eitemau o'r casgliad sydd wedi'i dderbynodi ('dad-dderbynodi') a defnyddio dull y cytunir arno i reoli'r broses o wneud

hynny. Mae canllawiau'r MA, Oddi ar y Silff: Pecyn Cymorth ar gyfer Trosglwyddo, Ailddefnyddio a Gwaredu Moesegol, yn rhoi rhagor o wybodaeth a chyngor moesegol.

**Diwydrwydd dyladwy**

Sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i ganfod y ffeithiau cyn penderfynu sut i weithredu, yn enwedig wrth ganfod tarddiad a hanes eitem a gynigir i'w chaffael, neu ei defnyddio cyn ei chaffael, mewn cynlluniau i ddychwelyd eitemau i'w tarddiad (repatriation) neu eu hadfer (restitution), neu er mwyn deall cefndir llawn noddwr, benthyciwr neu gyllidwr.

**Corff llywodraethu**

Y prif gorff o unigolion sy'n gyfrifol yn y pen draw am y polisïau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar lywodraethiant a gweithrediadau'r amgueddfa. Gall yr hawl gyfreithiol i asedau'r amgueddfa fod wedi'i breinio yn y corff hwn.

**Strwythurau grym annheg (mewn perthynas â gwaddol trefedigaethu ac ymerodraethau)**

Gwelir achosion o ddosbarthu grym yn anghyfartal mewn amgueddfeydd o ganlyniad i waddol gorffennol trefedigaethol Prydain. Mae gan bobl wyn hawliau a mantais strwythurol nad oes gan grwpiau hil ac ethnig eraill, ar lefel y sefydliad ac ar lefel unigolion.

**Eitem**

Gwrthrych neu ddeunydd materol, anniriaethol neu ddigidol sy'n cael ei ddal gan amgueddfa.

**Sefydliad partner**

Sefydliad y mae'r amgueddfa wedi adeiladu perthynas ffurfiol ag ef ym maes gweithgareddau neu gyllid yr amgueddfa.

**Y cyhoedd**

Pob unigolyn, grŵp a chymuned nad ydynt yn rhan o weithlu mewnol yr amgueddfa ond sy'n rhyngweithio â'r amgueddfa a'i gweithgareddau, neu'n cael eu gwasanaethu neu eu heffeithio ganddynt. Mae hyn yn cynnwys ymwelwyr, cynulleidfaoedd, aelodau'r gymuned, rhanddeiliaid a chymdeithas yn gyffredinol. Mae'r term yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb eang sydd gan amgueddfeydd i wasanaethu buddiannau amrywiol a chadw ymddiriedaeth y cyhoedd.

**Adfer (Restitution)**

Y broses o ddychwelyd deunyddiau diwylliannol i'w perchnogion gwreiddiol, er y gall y broses gwmpasu mwy na hynny. Nodir y manylion yn gliriach yn Restitution and Repatriation: A Practical Guide for Museums in England gan Arts Council England ac yn Canllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Ddad-drefedigaethu.

**Dychwelyd i darddiad**

Y broses o ddychwelyd deunyddiau diwylliannol i'w tarddle, er y gall y broses gwmpasu mwy na hynny. Nodir y manylion yn gliriach yn Restitution and Repatriation: A Practical Guide for Museums in England gan Arts Council England ac yn Canllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Ddad-drefedigaethu.

**Cymuned tarddiad**

Grŵp sy’n meddwl amdanynt eu hunain fel cymuned ac y byddai disgwyl iddynt, gan amlaf, rannu lleoliad daearyddol, credoau diwylliannol, ysbrydol a chrefyddol, ac iaith; neu rannu rhai o’r agweddau hyn. Cydnabyddir mai'r gymuned hon yw tarddiad diwylliannol eitemau a gedwir yng nghasgliad amgueddfa.

**Tryloyw**

Gweithredu ag agwedd agored a gonest at syniadau, prosesau a gweithredoedd yr amgueddfa. Galluogi cynulleidfaoedd i gael mynediad at wybodaeth ac ymgysylltu â hi.

**Gweithlu**

Term sy'n disgrifio'r bobl sy'n cyfrannu'n ffurfiol at weithrediadau a gweithgareddau sefydliad. Mae'r gweithlu'n cynnwys staff cyflogedig, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr, gweithwyr llawrydd ac ymgynghorwyr.

**Gweithle cadarnhaol**

Amgylchedd lle nad oes gwahaniaethu, bwlio na gofynion gormodol, lle mae pawb yn cael cyfle i ffynnu, tyfu a chyfrannu, a lle rhoddir blaenoriaeth i lesiant, beth bynnag yw'ch rôl, eich statws a'ch cefndir.

**Datblygiad**

Mae'r MA wedi gweithredu fel gwarcheidwad moeseg amgueddfeydd yn y Deyrnas Unedig ers i'r Codau Ymarfer ac Ymddygiad cyntaf gael eu cyflwyno yn 1977. Diweddarwyd y rhain yn 1987, 1991, 2002, 2007 a 2015.

Cynhaliodd yr MA adolygiad o'r Cod Moeseg mewn ymgynghoriad llawn â'r sector rhwng 2023 a 2025.

Nod yr adolygiad oedd sicrhau bo y cod yn adlewyrchu'n well y newidiadau a gafwyd yn y sector ac mewn cymdeithas ers yr adolygiad diwethaf yn 2014-2015.

Ym mis Gorffennaf 2023, aeth yr MA trwy broses agored i recriwtio gweithgor adolygu'r Cod Moeseg er mwyn:

- adolygu ac asesu effeithiolrwydd y Cod Moeseg
- cefnogi proses ymgynghori â'r sector ehangach ar effeithiolrwydd y cod
- gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw welliannau awgrymedig i'r cod, neu ar gyfer unrhyw ganllawiau ychwanegol, i'r Pwyllgor Moeseg a bwrdd yr MA.

Roedd yr ymgynghori yn ystod yr adolygiad yn cynnwys:

- arolwg ar-lein o'r sector cyfan
- pedwar digwyddiad ymgynghori ar-lein ar gyfer y sector cyfan ar themâu gwrth-hiliaeth a dad-drefedigaethu, casgliadau, cyfiawnder hinsawdd, a'r gweithlu a llywodraethu
- ymgysylltu â chyrff allweddol yn y sector a phartneriaid achredu
- digwyddiad ymgynghori ar-lein gyda phartneriaid cymunedol amgueddfeydd
- gweithdai meithrin consensws dan arweiniad Janet Marstine, cyn-aelod o Bwyllgor Moeseg yr MA ac Athro Cyswllt wedi ymddeol mewn astudiaethau amgueddfeydd ym Mhrifysgol Caerlŷr.

**Y Cod Moeseg a'r gyfraith**

Mae pob amgueddfa’n cael ei rhwymo gan gyfreithiau cenedlaethol a chonfensiynau rhyngwladol. Mae’r Cod Moeseg ar gyfer Amgueddfeydd yn diffinio safonau sy'n aml yn uwch na'r rhai sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, nid yw'r cod yn drech na hawliau a rhwymedigaethau y bobl sy'n gweithio mewn amgueddfeydd neu drostynt, yn

cynnwys y rhai sy'n codi o unrhyw berthynas gontractiol â chyflogwr, rhoddwr neu gleient.

Mae'r Cod Moeseg yn ddarystongedig i bwerau a rhwymedigaethau cyfreithiol cyrff llywodraethu amgueddfeydd ac i bwerau a rhwymedigaethau cyfreithiol aelodau unigol o gyrff o'r fath. Fodd bynnag, ym marn yr MA mae darpariaethau'r cod hwn er pennaf les y sector a'r cyhoedd ac felly mae'n annog cyrff llywodraethu pob amgueddfa (a lle bo'n briodol, is-gyrff, cyrff wedi'u his-gontractio, neu gyrff dirprwyedig fel pwyllgorau gweithredol, contractwyr neu gyrff rheoli) i'w barchu.

**Y Cod Moeseg a safonau gwirfoddol eraill**

Mae'r safonau moesegol yn y ddogfen hon yn helpu i ategu'r cynllun Achredu ar gyfer amgueddfeydd yn y Deyrnas Unedig ar lefel sefydliadol. Gweinyddir y broses achredu gan Arts Council England mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Museums Galleries Scotland a Chyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon. Cewch ragor o wybodaeth yn nogfennau canllaw Arts Council England.

Mae'r MA yn cefnogi gwaith sefydliadau a rhwydweithiau arbenigol yn y Deyrnas Unedig sydd â'u haelodau'n ymwneud â gwaith amgueddfeydd ac a all gynhyrchu eu codau moeseg a'u canllawiau moesegol eu hunain. Gall yr MA helpu i groesgyfeirio at y codau a'r canllawiau hyn ac i gyfeirio ymholwyr at ffynonellau priodol o gyngor arbenigol.

Mae'r MA yn cefnogi gwaith Cyngor Rhyngwladol yr Amgueddfeydd (ICOM) ac yn cydweithio'n agos ag ICOM UK. Ein nod yw i'r Cod Moeseg ar gyfer Amgueddfeydd fod yn gyson â'r Cod Moeseg ar gyfer Amgueddfeydd ledled y byd a gynhyrchir gan ICOM. Fodd bynnag, ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, mae adolygiad ICOM o'i God Moeseg yn parhau ac nid yw ei ganlyniad yn hysbys.